OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 996

# Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2004

## RHAN 5

## GOFYNION ADNABOD Y CHWANEGOL

### Gofynion adnabod ychwanegol

**17.** Mae'r gofynion adnabod ar gyfer symud a bennir yn erthyglau 18 i 20 yn gymwys yn ychwanegol at y gofynion yn Rhan 4.

### Symud moch 12 mis oed neu'n iau i ladd-dy

**18.**—(1) Ni chaiff neb symud mochyn 12 mis oed neu'n iau oddi ar ddaliad i ladd-dy neu farchnad gigydda oni bai ei fod wedi'i farcio â —

(a) marc adnabod; neu

(b) slapfarc sy'n ddarllenadwy drwy gydol oes y mochyn a thrwy gydol prosesu ei garcas.

(2) Yn yr erthygl hon, ystyr marchnad gigydda yw marchnad i werthu moch y bwriedir eu cigydda yn ddiymdroi.

### Symud moch i sioeau, arddangosfeydd ac at ddibenion bridio

**19.** Ni chaiff neb symud mochyn oddi ar ddaliad —

(a) i sioe neu arddangosfa; neu

(b) at ddibenion bridio gyda'r bwriad o ddychwelyd y mochyn i'r daliad y cafodd ei symud oddi arno

oni bai ei fod wedi'i farcio â marc adnabod sy'n cynnwys rhif adnabod unigol unigryw yn unol ag erthygl 10(2).

### Symud moch i'w hallforio

**20.**—(1) Ni chaiff neb symud mochyn oddi ar ddaliad at ddibenion masnach neu allforio rhyng-Gymunedol oni bai ei fod wedi'i farcio â marc adnabod sy'n cynnwys —

(a) rhif adnabod unigol unigryw yn unol ag erthygl 10(2); a

(b) y llythrennau "UK" o flaen marc y genfaint.

(2) Mae paragraff (1) yn gymwys p'un ai tag clust ynteu tatw yw marc adnabod.